# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 8 Mai 2013** |
| Amser: | **09:30 – 11:15** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_08_05_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Mike Lewis (Dirprwy Glerc)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ieuan Wyn Jones. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

## 2. Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Cartrefi Cymunedol Cymru ac ymateb Llywodraeth Cymru i Buddsoddi i Arbed.

2.2 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 4. Ardaloedd Menter - Ystyried y cylch gorchwyl drafft

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl drafft a chytunodd i ymweld ag Ardal Fenter Sain Tathan ar 22 Mai.

4.2 Nododd y Pwyllgor y byddai ganddo hefyd ddiddordeb mewn ymweld ag Ardaloedd Menter eraill yng Nghymru yn y dyfodol agos.

4.3 Gofynnodd y Pwyllgor am bapur astudiaeth cymharol gan y Gwasanaeth Ymchwil ar yr Ardaloedd Menter sydd eisoes wedi'u sefydlu neu sydd wedi'u sefydlu'n ddiweddar.

4.4 Cytunodd y tîm clercio i ddarparu trawsgrifiad o'r sesiwn flaenorol ar Ardaloedd Menter a gynhaliodd y Pwyllgor Menter a Busnes ar 29 Tachwedd 2012.

## 5. Gwariant Ataliol - Papur Opsiynau

5.1 Trafododd y Pwyllgor y papur opsiynau a chytunodd y byddai'n canolbwyntio ar wariant ataliol. Dyma'r ddau opsiwn dewisol:

- Defnyddio gwariant ataliol yn ganolbwynt i'r gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft.
- Edrych ar un o feysydd polisi penodol Llywodraeth Cymru ar ôl y gyllideb e.e. gwaith yn erbyn tlodi.

## 6. Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

6.1 Trafododd y Pwyllgor bapur y Gwasanaeth Ymchwil ar oblygiadau ariannol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) a chytunodd bod yr agweddau ariannol a chyfrifyddiaeth sy'n berthnasol i'r Bil o ddiddordeb penodol.

6.2 Cytunodd Clerc y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i bennu pa Weinidog i'w wahodd i'r Pwyllgor i fynd i'r afael â'r materion ehangach hyn.

6.3 Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gwasanaeth Ymchwil ddarparu dadansoddiad manwl o gostau blynyddol y Bil Addysg Bellach ac Uwch a sut y cânt eu cyfrifo; diffiniad o beth yw sefydliad nad yw'n gwneud elw; a phapur ar y gwahaniaethau a fabwysiadwyd rhwng Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon o ran sut mae Sefydliadau Addysg Bellach yn cael eu dosbarthu.

## 7. Rheoli Asedau - (Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus) Arddangos ei system E-Pims

7.1 Arddangosodd Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus ei system E-Pims i'r Pwyllgor.